

**TORFAEN
COUNTY
BOROUGH**



**BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN**

Adroddiad Blynyddol 2019 - 2020

Cydymffurfio a Safonau'r Iaith Gymraeg

Paratowyd yn unol â gofynion

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mehafin 2020



Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Cyflawniadau	4
3.	Cydymffurfio – Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	5
4.	Cydymffurfio – Safonau Llundio Polisi	22
5.	Cydymffurfio – Safonau Gweithredu	25
6.	Cwynion	35
7.	Sgiliau'r Iaith Gymraeg	36
8.	Hyfforddiant Iaith Gymraeg	39
9.	Recriwtio	41

1. Cyflwyniad

Cynhyrchir yr Adroddiad Blynyddol hwn dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015. Dan y Fframwaith Rheoleiddio mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen adrodd ar bum maes statudol.

Meysydd	Safon a/neu is-safon berthnasol
<p>Cydymffurfio</p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys sut y gwnaethoch gydymffurfio a'r safonau (yn ôl dosbarth o safon - cyfenwi gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu)</p>	<p>158, 164, 170</p>
<p>Cwynion</p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â chydymffurfio â'r safonau hynny yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	<p>147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)</p>
<p>Sgiliau'r Iaith Gymraeg</p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol (lle'n berthnasol, i'r graddau lle mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -</p> <p>(a) Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 151)</p>	<p>170 (2) (a) 151</p>
<p>Hyfforddiant Iaith Gymraeg</p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol (lle'n berthnasol, i'r graddau lle mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -</p> <p>(b) Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);</p> <p>(c) Os cynigiwyd fersiwn Cymraeg o'r cwrs Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);</p>	<p>170 (2) (b) (c) 152</p>

<p>Recriwtio</p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol (lle'n berthnasol, i'r graddau lle mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -</p> <p>(ch) Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a oedd wedi eu categoreiddio fel swyddi lle -</p> <p>(i) Roedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, (ii) Roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg ar ôl penodi i'r swydd, (iii) Roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol, neu (iv) Ni thybid bod angen sgiliau iaith Gymraeg, (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154);</p>	<p>170 (2) (ch) 154</p>
--	-----------------------------

Ceir manylion y Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor o fewn yr Hysbysiad Cydymffurfio dyddiedig 30 Medi 2015. Mae'r cyngor yn ddarostyngedig i 170 o Safonau sydd wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio.

Mae gan y Tîm Partneriaethau a Pholisi, dan gyfarwyddiaeth yr Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus, ar hyn o bryd bedwar aelod staff yn gweithio ar gyflawni gwaith iaith Gymraeg corfforaethol ar ran y Cyngor.

Swyddog yr Iaith Gymraeg
Cydgysylltydd Cyfieithu Cymraeg
Cyfieithwyr yr Iaith Gymraeg (x 2)

Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus
Tîm Partneriaethau a Pholisi
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 6YB

Ffôn : (01495) 766096

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan yr Aelod Gweithredol dros Lywodraethu Corfforaethol a Pherfformiad gyda throsolwg gan y Tîm Arweinyddiaeth oherwydd y pandemig Covid-19. Mae'r Aelodau Etholedig yn gwbl ymwybodol o'r dyletswyddau statudol o dan y Safonau ac yn parhau i fod yn ymroddedig i gyflawni Gwasanaethau Iaith Gymraeg i drigolion Torfaen.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol, wedi'i gymeradwyo, yn cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor (www.torfaen.gov.uk), dan adran yr iaith Gymraeg ac mewn swyddfeydd lleol ble mae mynediad i'r cyhoedd, erbyn 30 Mehefin 2020 fan bellaf.

2. Cyflawniadau

Polisi Arwyddion

Mae'r Cyngor yn annog datblygwyr eiddo i ddefnyddio enwau Cymraeg ar strydoedd newydd yn y fwrdeistref.

Yn ystod 2019/20, cyflwynwyd 11 o enwau strydoedd newydd drwy'r broses gynllunio.

Cymeradwywyd 1 (9.1%) gydag enwau Cymraeg. Mae hyn yn is na'r 50% y cytunwyd arno gyda Comisiynydd Cymraeg ac yn rhannol oherwydd bod 7 enw stryd yn ymddangos ar un cais ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Ni fydd y Cyngor bellach yn cyfieithu enwau strydoedd presennol yn dilyn arweiniad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Defnyddio'r Cymraeg mewn Cyfarfodydd

Yn ystod 2019/20, atgoffwyd yr holl staff o rwymedigaethau'r Cyngor o dan y Safonau wrth drefnu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd. Cyhoeddwyd arweiniad wrth ddanfôn gwahoddiadau i hwyluso gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd.

Llinynnau Gwddf a Bathodynau 'Iaith Gwaith'

Eto eleni, dosbarthwyd Bathodynau a Llinynnau Gwddf i staff sy'n gallu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac i alluogi aelodau o'r cyhoedd i nodi pa swyddogion sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn annog defnyddio'r logo "Iaith Gwaith" ar ddiwedd e-bost staff unigol.

Sgiliau Iaith ar gyfer Swyddi Newydd a Swyddi Gwag

Yn ystod 2018/19, diwygiwyd y polisi recriwtio i gryfhau'r gofynion wrth asesu swyddi newydd a swyddi gwag ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg. Er bod hyn wedi golygu cynnydd bach yn nifer o swyddi sy'n cael eu hysbysebu a gofynion sgiliau iaith Cymraeg, mae angen mwy o waith i nodi'r prosesau a ddefnyddir ym mhob maes gwasanaeth.

Hunanwerthuso

Mae cynrychiolwyr o bob maes gwasanaeth yn rhan o Grŵp Cydlynu'r Iaith Gymraeg sy'n hwyluso ac yn hyrwyddo'r iaith o ddydd i ddydd. Gofynnir i bob maes gwasanaeth hunanwerthuso yn erbyn pob un o'r safonau sy'n sail i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Canllaw ar gyfer Staff

Cyhoeddodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg y "Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015" terfynol ym mis Chwefror 2020. Er bod y ddogfen wedi'i chroesawu mewn egwyddor, mae'r cyngor yn parhau i weithio trwy'r anghysondebau rhwng y cod terfynol a dehongliad y Cyngor o 2016.

3. Cydymffurfio - Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Cyhoeddwyd canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar fewnwyd y Cyngor.

Gohebiaeth - Safonau 1 – 7

1	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	<p>Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae pob templed llythyr ac e-bost yn nodi hyn trwy frawddeg safonol "Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain at unrhyw oedi."</p> <p>Anfonir unrhyw ohebiaeth gyffredinol i nifer o gartrefi yn ddwyieithog.</p> <p>Mae pob adran yn y Cyngor yn gyfrifol am gadw eu cofnod eu hunain ynghylch a yw unigolyn sy'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg</p> <p>Mae proses y Cyngor ar gyfer cofnodi gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn cofnodi dewis iaith yr unigolyn sydd angen y gwasanaeth. Mae hwn yn gwestiwn statudol o fewn y broses gofnodi.</p>
4	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.	
5	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	
6	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	
7	Rhaid ichi ddatgan - (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	

Galwadau Ffôn – Safonau 8 - 22

8	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	
9	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Mae'n ofynnol i'r holl staff ddefnyddio'r cyfarchiad corfforaethol dwyieithog wrth ateb galwadau.
11	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny - (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	Mae'r canllaw staff yn amlinellu gweithdrefn y Cyngor wrth ymdrin â galwadau ffôn a dderbynnir gan gwsmeriaid sy'n dymuno cael mynediad i wasanaethau yn Gymraeg
12	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae'r Cyngor yn croesawu galwadau yn y Gymraeg ac yn cyfeirio galwadau, trwy neges wedi'i recordio, i "Galw Torfaen" sy'n gallu delio â'u hymholiad yn Gymraeg.
13	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	Mae'r holl negeseuon awtomataidd yn ddwyieithog.
14	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	Yn ystod 2019/2020 derbyniodd prif ganolfan alwadau'r Cyngor gyfanswm o 96,689 o alwadau. Dewisodd 1.9% (1,844 o alwadau) o'r galwadau hyn yr opsiwn Cymraeg.
15	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	Mae pob adran yn y Cyngor yn gyfrifol am gadw eu cofnod eu hunain ynghylch a yw person yn dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg
16	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	
17	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	

19	<p>Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg –</p> <p>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a</p> <p>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.</p>	
20	<p>Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.</p>	
21	<p>Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyhch yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid ichi gydymffurfio â safon 21 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ile bo'n angenrheidiol i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a ○ Ile nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. 	
22	<p>Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.</p>	

Cyfarfodydd gyda'r Cyhoedd – Safonau 24 - 36

24	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	
24A	Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Bydd unrhyw gyfarfod a drefnir gydag unigolion yn cael ei gynnal yn newis iaith y cwsmer. Cyhoeddwyd canllawiau ar ofynion y Safonau i bob aelod o staff.
26	Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.	Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn darparu cymorth ac arweiniad ar ddefnyddio cyfieithu ar y pryd a chanllawiau ymarferol ar sicrhau bod dewis iaith mynychwyr mewn cyfarfodydd yn cael ei nodi o'r cychwyn cyntaf.
26A	Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod- (a) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant unigolyn ("A") a wahoddwyd, a (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.	Mae cyfarfodydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr hysbysu'r Cyngor o leiaf dri diwrnod cyn y cyfarfod os ydynt yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg (lle caniateir iddynt gyfrannu i'r cyfarfod), er mwyn dod o hyd i gyfieithu ar y pryd.
27	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	
27A	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	

27D	<p>Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).</p>	
29	<p>Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi –</p> <p>(a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a</p> <p>(b) hysbysu'r unigolyn (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.</p>	
29A	<p>Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod –</p> <p>(a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod,</p> <p>(b) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, ac</p> <p>(c) os oes o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.</p>	
30	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</p>	
31	<p>Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.</p>	

32	<p>Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi –</p> <p>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p>	
33	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg –</p> <p>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 33 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <p>○ pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r cyfarfod wedi gofyn i bersonau eich hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a bod dim un person wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</p>	
34	<p>Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 34 ymhob amgylchiad, ac eithrio ble bo'r isod yn gymwys:</p> <p>(1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyfieithu i'r Gymraeg unrhyw destun nad yw wedi ei lunio (“testun A”).</p> <p>(2) Ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol os nad yw'n cyfieithu testun A i'r Gymraeg ond gweler is-baragraff (3).</p> <p>(3) Rhaid i gorff ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o destun A os yw person arall wedi llunio testun A yn Gymraeg yn unol—</p> <p>(a) â'i Gynllun Iaith Gymraeg;</p> <p>(b) â dyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg;</p> <p>(c) â Rheolau Sefydlog y Cynulliad;</p> <p>(ch) ag adran 35(1C) o Ddeddf 2006; neu</p> <p>(d) â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad.</p>	

35	<p>Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).</p>	
36	<p>Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 36 ymhob amgylchiad, ac eithrio gwasanaethau a ddarperir i bersonau gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ ddarparwyr masnachol; ○ sefydliad gwirfoddol; neu ○ ddarparwr annibynnol. 	

Dogfennau Dwyieithog – Safonau 37 - 51, 69 - 70

37	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoedduswydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	<p>Polisi'r Cyngor yw cyhoeddi ffurflenni cyhoeddus, taflenni, poster, agendâu a chofnodion y Cyngor, ac ati yn ddwyieithog. Caiff dogfennau nad ydynt wedi'u nodi yn y Safonau eu sgorio, yn seiliedig ar nifer y geiriau, y gynulleidfa a ragwelir a chynnwys technegol. Y gofyniad isaf ar gyfer unrhyw ddogfen gyhoeddus yw crynodeb gweithredol dwyieithog.</p> <p>Mae Canllawiau Staff yn amlinellu'r gofynion y dylai'r holl wybodaeth a gynhrychir ar gyfer y cyhoedd fod yn ddwyieithog, ac na ddylid trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Hyrwyddir canllaw dylunio Comisiynydd y Gymraeg fel arfer da.</p> <p>Cyhoeddir pob Hysbysiad Swyddogol yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg wedi'i leoli fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf (uwchben neu i'r chwith o'r testun Saesneg)</p> <p>Bydd pob ffurflen newydd a gynhrychir neu a adnewyddir yn ddwyieithog.</p>
38	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	
41	<p>Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg –</p> <p>(a) agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet;</p> <p>(b) agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 41 (a) ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● papurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yn ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet. <p>Rhaid cydymffurfio â safon 41 (b) ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● papurau eraill ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd. 	
42	<p>Rhaid i unrhyw drwydded neu dystysgrif yr ydych yn ei llunio gael ei llunio yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio mewn perthynas â thrwydded neu dystysgrif a gyhoeddir ymhob amgylchiad.</p> <p>Rhaid cydymffurfio mewn perthynas â thrwydded neu dystysgrif a roddir i berson, ac na chaiff ei gyhoeddi yn yr amgylchiadau canlynol:</p> <p>a) pan fyddwch wedi cynnig llunio'r drwydded neu dystysgrif yn Gymraeg i berson, a</p> <p>b) pan fo'r person hwnnw wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno derbyn y drwydded neu dystysgrif yn Gymraeg.</p>	
43	Rhaid i unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn yr ydych yn ei lunio neu ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd gael ei lunio neu ei llunio yn Gymraeg.	
45	Rhaid i unrhyw reolau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n gymwys i'r cyhoedd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg.	
46	Pan fyddwch yn rhyddhau unrhyw ddatganiad i'r wasg,	

	<p>rhaid ichi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid ichi ryddhau'r ddwy fersiwn ar yr un pryd.</p>	
47	<p>Os byddwch yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg - (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.</p>	
48	<p>Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.</p>	
49	<p>Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.</p>	
50	<p>Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.</p>	
50A	<p>Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.</p>	
50B	<p>Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).</p>	
51	<p>Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.</p>	
69	<p>Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.</p>	

70	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	
----	---	--

Gwefan Gyhoeddus, Cyfryngau Cymdeithasol ac Apiau, a Pheiriannau Hunanwasanaeth - Safonau 52 - 60

52	<p>Rhaid ichi sicrhau –</p> <p>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2017:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Gwefan gorfforaethol y Cyngor. <p>Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Mawrth 2018:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Pob gwefan arall. 	<p>Mae pob tudalen o wefan gorfforaethol y Cyngor ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae "sgrin sblass" iaith yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael dewis o'r cychwyn cyntaf.</p> <p>Mae defnyddwyr yn gallu newid rhwng ieithoeddtrwy ddewis y ddolen "iaith" yn y gornel dde uchaf pob tudalen.</p> <p>Fe gafodd tudalennau Cymraeg y wefan gorfforaethol 5,714 o ymweliadau yn ystod 2019/20, o gymharu â 2,586,841 o ymweliadau a'r tudalennau Saesneg.</p>
55	<p>Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.</p>	<p>Mae'r holl ficro-wefannau presennol wedi cael eu harchwilio i sicrhau cydymffurfiaeth.</p>
56	<p>Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.</p>	<p>Mae canllawiau ar ofynion y Safonau'r Gymraeg wedi'u rhoi i'r holl staff</p>
57	<p>Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.</p>	<p>Bydd apiau newydd a phresennol yn gwbl weithredol, ac o'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg</p>
58	<p>Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Bydd holl negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog. Yr unig eithriad fydd negeseuon adweithiol (ar y diwrnod), lle bydd y neges yn cael ei harddangos yn iaith yr awdur.</p>
59	<p>Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).</p>	<p>Mae pob peiriant hunanwasanaeth yn gallu gweithredu'n ddwyieithog.</p>
60	<p>Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.</p>	

Arwyddion – Safonau 61 - 63

61	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	<p>Polisi'r Cyngor yw bod pob arwydd yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith o'r testun Saesneg.</p> <p>Yr unig eithriad yw platiau enwau strydoedd newydd a fydd yn ymddangos yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig, wrth fonitro nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. O'r 11 enw stryd newydd yn ystod y flwyddyn ariannol, cymeradwywyd 1 (9.1%) yn Gymraeg.</p>
62	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	<p>Ni fydd Enwau Strydoedd presennol yn cael eu cyfieithu.</p>
63	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	

Gwasanaethau Derbynfya – Safonau 64 - 68

64	<p>Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 7 Medi 2017:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Prif wasanaeth derbynfa'r corff. 	
65	<p>Os byddwch yn trefnu ymweliad neu apwyntiad i berson ("P") ymlaen llaw a fydd yn golygu y bydd P yn dod i'ch derbynfa, rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg (oni bai eich bod yn gwybod eisoes a yw P yn dymuno cael y gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg).</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 65 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2018:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Pob gwasanaeth derbynfa arall. 	<p>Mae'r Cyngor yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor, ac yn arddangos arwyddion i gyfleu hyn.</p> <p>Mae gweithwyr derbynfeydd sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi derbyn bathodynau / llinynnau gwddf "Iaith Gwaith".</p>
65A	<p>Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg i berson ("P") os byddwch wedi trefnu ymweliad neu apwyntiad ymlaen llaw i P, a –</p> <p>(a) bod P wedi eich hysbysu ymlaen llaw ei fod yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, neu</p> <p>(b) eich bod eisoes yn gwybod bod P yn dymuno cael y gwasanaeth yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 65A mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2018:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Pob gwasanaeth derbynfa arall. 	<p>Cyhoeddwyd canllawiau i sicrhau bod unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am wasanaeth Cymraeg yn cael gwasanaeth Cymraeg o'r pwynt hwnnw ymlaen.</p>
66	<p>Os nad oes gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg ar gael gennych, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg ar gael dros ffôn yn eich derbynfa.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 66 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2018:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Pob gwasanaeth derbynfa arall. 	<p>Gall swyddfeydd y Cyngor nad oes ganddynt dderbynnydd sy'n siarad Cymraeg, drosglwyddo galwadau ffôn i'r Ganolfan Ddinesig, ble mae siaradwr Cymraeg yn gallu delio â'r ymholiad yn Gymraeg.</p>
67	<p>Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 67 mewn perthynas â'r isod erbyn 7 Medi 2017:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Prif wasanaeth derbynfa y corff. <p>Rhaid cydymffurfio â safon 67 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2018:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Pob gwasanaeth derbynfa arall. 	

68	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	
----	--	--

Dyfarnu Grantiau – Safonau 71 - 75

71	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	<p>Mae canllawiau wedi eu dosbarthu i'r holl staff ar ddyfarnu grantiau a'r gofynion ddim i drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys hysbysebu, ceisiadau, amserlenni a phenderfyniadau.</p>
72	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	
72A	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeisywyr am benderfyniadau).	
74	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	
75	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	

Dyfarnu Contractau – Safonau 76 - 80

76	<p>Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 76 yn yr amgylchiadau isod:</p> <p>(a) os yw pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu</p> <p>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.</p>	<p>Mae pob gwahoddiad caffael yn cynnwys elfen Gymraeg a chyhoeddir dogfennau tendro yn Gymraeg os yw'r testun neu'r gynulleidfa a ragwelir yn awgrymu y dylid eu cyhoeddi yn Gymraeg.</p>
77	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.</p>	<p>Croesewir gwahoddiadau tendro yn Saesneg neu yn Gymraeg ac byddwn yn ymdrin ac unrhyw gais a dderbynnir yn Gymraeg, yn Gymraeg o'r pwynt hwnnw ymlaen</p>
77A	<p>Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael dendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).</p>	<p>Mae'r holl gontractau a ddyfarnwyd gan y Cyngor hefyd yn cynnwys cymalau ar y gofynion i ddarparu gwasanaethau yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor.</p>
79	<p>Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi -</p> <p>(a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a</p> <p>(b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p>	<p>Mae'r holl gontractau a ddyfarnwyd gan y Cyngor hefyd yn cynnwys cymalau ar y gofynion i ddarparu gwasanaethau yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor.</p>
80	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.</p>	

Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg – Safonau 81 - 82

81	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg	Mae'r canllaw ar gyfer staff ar fewnwyd y Cyngor yn amlinellu'r gofyniad i
82	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	hyrwyddo unrhyw wasanaeth a ddarperir yn Gymraeg gan y Cyngor a dylid ei hysbysebu yn Gymraeg. Hyrwyddir gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor ar wefan y Cyngor ac ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r wefan corfforaethol yn gwbl ddwyieithog gyda chyfrifon cyfryngau cymdeithasol cyfatebol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg ac i'r gwrthwyneb.

Hunaniaeth Corfforaethol – Safon 83

83	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog.
----	--	---

Cyrsiau Addysgol – Safonau 84 & 86

84	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â safon 84 ymhob amgylchiad, ac eithrio: ○ pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 86 yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg.	Cynigir pob cwrs, nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm, yn y ddwy iaith. Yna caiff pob cwrs ei asesu o ran niferoedd a darpariaeth. Defnyddir y weithdrefn hon ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg a Saesneg ac nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
86	Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.	Mae rhai ardaloedd wedi ei chael yn anodd i ddenu tiwtoriaid sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gyflwyno'r cyrsiau hyn.

Systemau Annerch Cyhoeddus – Safon 87

87	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 87 ym mhob amgylchiad, ac eithrio gwneud y cyhoeddiad yn Gymraeg yn gyntaf:</p> <p>(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraffau (a) i (c) neu os bodlonir yr amod ym mharagraff (2) –</p> <p>(a) Yr amod cyntaf yw bod argyfwng wedi digwydd, yn digwydd neu ar fin digwydd.</p> <p>(b) Yr ail amod yw bod y neges a gyhoeddir dros system annerch gyhoeddus yn angenrheidiol at ddiben atal, rheoli neu leddfu agwedd ar argyfwng neu effaith argyfwng.</p> <p>(c) Y trydydd amod yw bod yr angen am y neges a gyhoeddir dros system annerch gyhoeddus y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) yn daer.</p> <p>(2) Yr amod yw bod y person neu'r corff yn ymgymryd ag ymarfer argyfwng.</p> <p>(3) Yn y paragraff hwn, mae i "argyfwng" yr un ystyr ag a roddir i "emergency" yn adran 1 o Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.</p> <p>(4) Os bodlonir yr amod ym mharagraff (2), yna mae'r cyfeiriad at "argyfwng" yn is-baragraff (1)(b) i gael ei ddarllen fel "y ffug sefyllfa argyfwng".</p>	<p>Mae cyhoeddiadau a wneir ym mhob liff yn Swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog.</p>
----	---	---

4. Cydymffurfio - Safonau Llundio Polisi

Cyhoeddwyd canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Llundio Polisi ar fewnrwyd y Cyngor.

88	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
89	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae'r Cyngor wedi datblygu gweithdrefn asesu effaith i gyd-fynd â phroses penderfyniadau'r Cyngor, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Llundio Polisi. Mae'r weithdrefn yn cyfuno'r asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg a chydaddoldeb â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
90	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae angen asesiad effaith i gyd-fynd ag unrhyw adroddiad sy'n mynd ger bron y cabinet neu'r Cyngor i wneud penderfyniad gyda'r bwriad o gefnogi penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaethau perthnasol.
91	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae'r cwestiynau ar effaith ar yr iaith Gymraeg yn cynnwys; cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r effaith negyddol neu gadarnhaol y gall y penderfyniad ei cael ar yr iaith gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
92	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

93	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	
94	<p>Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant -</p> <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n positif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	
95	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	

96	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	
97	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	

5. Cydymffurfio – Safonau Gweithredu

Cyhoeddwyd canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Gweithredu ar fewnrwyd y Cyngor.

Darparu Dogfennau Cyflogaeth yn Gymraeg – Safonau 99 - 104

98	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.	
99	Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.	
100	Rhaid ichi - (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, ddarparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae pob ffurflen gais am swydd yn cynnwys cwestiynau ar ddewis a sgiliau iaith.
101	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae'r system awtomataidd ar gyfer trefnu gwyliau / absenoldeb, treuliau ac arfarnu staff, yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.
102	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae system AD y Cyngor wedi'i datblygu i ofyn am sgiliau iaith ac iaith dewisol, holl staff parhaol.
103	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	
104	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi - (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.	

Polisiau Adnoddau Dynol - Safonau 105 - 111

105	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae holl bolisiau AD y Cyngor yn cael eu darparu yn Gymraeg ar fewnrwyd y staff (SWOOP).
106	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	
107	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	
108	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	
109	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	
110	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	
111	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	

Gweithdrefnau Cwynion a Disgyblu – Safonau 112 - 119

112	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff - (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.	<p>Gofynnir i'r staff am eu dewis iaith yn ogystal â'u sgiliau iaith. Sicrhau bod yr holl gwynion a gweithdrefnau disgyblu yn cael eu trin yn gyfartal yn eu dewis iaith.</p>
112A	Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff - (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	
114	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi - (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	
115	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff - (a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.	
116	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.	
116A	Rhaid ichi - (a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a (b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.	

118	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi -</p> <p>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a</p> <p>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p>	
119	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -</p> <p>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu</p> <p>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.</p>	

Mewnrwyd ac Adnoddau TG y Cyngor – Safonau 120 - 125

120	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	<p>Mae meddalwedd Cysgliad, ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg yn cael ei osod ar bob cyfrifiadur fel mater o drefn.</p> <p>Mae gan staff a'r Aelodau fynediad i fewnrwyd y Cyngor sy'n cynnwys dolenni i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Geiriadur yr Academi Saesneg-Cymraeg Ar-lein • Term Cymru • To Bach <p>Mae cyfieithiad o dudalennau mewnrwyd ar waith</p> <p>Mae tudalen mewnrwyd y fewnrwyd yn cynnwys ymadroddion a chyfieithiadau defnyddiol, fel teitlau swyddi a dogfennau allweddol (yn ymwneud â'r iaith Gymraeg)</p>
122	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun hafan eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnrwyd (neu, pan fo'n berthnasol, bod hafan Gymraeg eich mewnrwyd) yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnrwyd.	
124	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	
125	Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.	

Sgiliau Iaith Staff – Safon 127

127	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.	Mae'r Cyngor yn cofnodi lefelau iaith staff yn ôl ALTE (Cymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop) lefelau 0-5. 0 yn "Dim sgiliau Cymraeg" a 5 yn "rhugl". Cofnodir y lefelau sgiliau yn ganolog ar borth gweithwyr Adnoddau Dynol corfforaethol (iFOR).
-----	---	--

Hyfforddiant Staff – Safonau 128 - 133

128	<p>Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -</p> <p>(a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 128 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <p>○ pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r hyfforddiant wedi gofyn i'r mynychwyr eich hysbysu os ydynt am fynychu'r hyfforddiant yn Gymraeg, a bod dim un mynychwr wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno mynychu'r hyfforddiant yn Gymraeg.</p>	<p>Cynigir cyfleoedd i bob aelod o staff gael mynediad i hyfforddiant er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg, trwy amrywiaeth o ddulliau a ffynonellau. Mae manylion yr hyfforddiant a gynhaliwyd yn 2019/20 i'w weld yn adran 8 yr adroddiad hwn.</p>
129	<p>Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn -</p> <p>(a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 129 ymhob amgylchiad, ac eithrio darparu'r hyfforddiant yn Gymraeg:</p> <p>○ pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r hyfforddiant wedi gofyn i'r mynychwyr eich hysbysu os ydynt am fynychu'r hyfforddiant yn Gymraeg, a bod dim un mynychwr wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno mynychu'r hyfforddiant yn Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo'r ffilmiau ymwybyddiaeth "Mwy na Geiriau".</p> <p>Mae hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i'r holl staff. Fodd bynnag, gyda niferoedd isel iawn o staff sydd â sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd yn golygu na chaiff yr isafswm o fynychwyr byth eu cyrraedd. Mae hyn yn unol â chyrsgiau a gynhelir yn Saesneg ac nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>
130	<p>Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith -</p> <p>(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.</p>	
131	<p>Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.</p>	

132	<p>Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu -</p> <p>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);</p> <p>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;</p> <p>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p>	
133	<p>Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.</p>	

Geiriad a Logo ar gyfer Llofnod E-byst Staff - Safonau 134 - 135

134	<p>Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.</p>	<p>Mae'r logo "Gwaith Cymraeg", i'w ddefnyddio gan staff ar eu llofnodion e-bost, ar gael ar y tudalennau adnoddau Cymraeg ar y fewnwyd, i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg.</p> <p>Mae Cyfieithiadau Teitlau Swyddi ac Adrannau hefyd ar gael ar y tudalennau adnoddau Cymraeg ar y fewnwyd er mwyn i'r staff gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt.</p>
135	<p>Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.</p>	

Y Broses Recriwtio – Safonau 136 - 140

136	<p>Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys -</p> <p>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;</p> <p>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;</p> <p>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p>	
136A	<p>Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi -</p> <p>(a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a</p> <p>(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.</p>	<p>Un o ddyletswyddau'r rheolwr recriwtio yw polisi'r Cyngor ar asesu swyddi. Rhaid i reolwyr asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob swydd a hysbysebir a chofnodi hyn ar yr hysbyseb.</p>
137	<p>Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.</p>	<p>Mae'r asesiad yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyswllt â'r cyhoedd (ysgrifenedig, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb) • Cyswllt â Sefydliadau Addysg (Ysgolion) • Nifer y siaradwyr Cymraeg sydd o fewn y tîm ar hyn o bryd
137A	<p>Os byddwch yn cyhoeddi -</p> <p>(a) ffurflenni cais am swyddi;</p> <p>(b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;</p> <p>(c) gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;</p> <p>(ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 137A ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <p>● swydd ddisgrifiadau pan fo'r swydd wedi ei chategoreiddio fel un lle nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p>	<p>Mae pob ffurflen gais yn cynnwys datganiad sy'n croesawu ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg</p> <p>Bydd recriwtio staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn galluogi meysydd gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg a "Mwy na Geiriau", Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Iaith Gymraeg Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</p> <p>Rhaid i'r hysbyseb, disgrifiadau swydd a'r fanyleb person fod ar gael yn ddwyieithog, os nodir bod angen sgiliau yn y Gymraeg.</p>
137B	<p>Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).</p>	

139	<p>Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi -</p> <p>(a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu ddull arall o asesiad, a</p> <p>(b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).</p>	
140	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.</p>	

Arwyddion Mewnol – Safonau 141 - 143

141	<p>Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.</p>	<p>Polisi'r Cyngor yw bod holl arwyddion mewnol yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos uwchben, neu i'r chwith o'r testun Saesneg.</p>
142	<p>Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.</p>	
143	<p>Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.</p>	

Cyhoeddiadau yn y Gweithle – Safon 144

144	<p>Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 144 ym mhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none">○ gwneud y cyhoeddiad yn Gymraeg yn ystod argyfwng neu ymarfer argyfwng.	<p>Mae cyhoeddiadau a wneir ym mhob liff yn swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog</p>
-----	---	--

6. Cwynion

Mae pob cwyn a dderbynnir gan drigolion trwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio â safonau'r iaith yn cael ei thrin yn unol â pholisi cwyno corfforaethol y Cyngor. Caiff cwynion eu categorio dan dri cham:

- **Cam 1** - Datrys cwyn yn anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith
- **Cam 2** - Cwyn Cam 1 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog uwch neu gŵyn sy'n ymwneud â mwy nag un maes gwasanaeth. Caiff cwynion eu harchwilio'n ffurfiol a chânt ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.
- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus / Comisiynydd y Gymraeg** – Cwyn Cam 2 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog neu gorff uwch a all gael arolwg annibynnol ar ran yr achwynydd. Byddai'r Ombwdsmon yn disgwyl i'r achwynydd fod wedi defnyddio proses gwyno lawn y Cyngor cyn cysylltu, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru), mae Comisiynydd yr iaith yn medru derbyn cwynion a anfonir yn uniongyrchol i swyddfa'r Comisiynydd ac ymchwilio ar eu rhan os tybir bod y gŵyn yn un ddilys.

Yn ystod 2019/2020, derbyniwyd 2 cwyn. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd ym mhob cam:

Cam 1	Cam 2	Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
0	0	2

Cam 1

Nid oes un cwyn wedi ei dderbyn yn uniongyrchol gan y Cyngor.

Comisiynydd yr Iaith Gymraeg

CSG588 Ymchwiliad i arwydd ffordd newydd wedi'i godi yn Saesneg yn unig. Ni chadarnhawyd yr ymchwiliad hwn, oherwydd bod y Cyngor wedi dilyn arweiniad blaenorol gan swyddfa'r Comisiynydd.

CSG660 Ymchwiliad i'r ymateb awtomatig a gynhyrchwyd gan calltorfaen@torfaen.gov.uk ddim yn ddwyieithog

Roedd y ddwy gŵyn yn ymwneud â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

7. Sgiliau iaith Gymraeg staff

Am flynyddoedd lawer mae'r Cyngor wedi casglu data ar sgiliau iaith ei staff. Hyd at fis Mawrth 2016 casglwyd y wybodaeth hon drwy'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'r darparwr meddalwedd AD Corfforaethol (iFor) i ymgorffori data sgiliau iaith, o fewn y modiwl dysgu a datblygu, lle gall staff ddiweddarau eu sgiliau yn ôl yr angen. Dyma'r data diweddaraf a ddelir ar sgiliau Cymraeg Siarad, Darllen, Deall ac Ysgrifennu.

Mae'r Tabl isod yn dangos pob maes gwasanaeth a lefel y rhuglder gan ddefnyddio'r graddfeydd ALTE.

0 = Dim sgiliau iaith Gymraeg

5 = Rhugl

Siarad

	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwasanaethau Addysg	105	64	3	1	0	5	178
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	171	15	5	2	2	2	197
Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheoliadol	528	25	3	2	4	3	565
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai	456	24	4	2	3	2	491
Prif Weithredwr	109	24	6	2	1	1	143
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus	20	5	1	0	0	4	30
Gwasanaeth Rhannu Adnoddau	176	25	2	0	1	0	106
Cyfanswm	1585	182	24	9	11	17	1808

Darllen

	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwasanaethau Addysg	121	51	3	1	4	1	181
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	168	17	4	2	1	4	196
Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheoliadol	533	22	3	1	4	3	566
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai	456	24	4	3	3	2	492
Prif Weithredwr	113	20	7	2	0	2	144
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus	19	5	1	0	0	4	29
Gwasanaeth Rhannu Adnoddau	175	27	2	0	1	0	205
Cyfanswm	1585	166	24	9	13	16	1813

Ysgrifennu

	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwasanaethau Addysg	127	42	3	2	2	1	177
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	169	14	4	2	2	3	194
Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheoliadol	535	20	4	0	4	2	565
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai	469	12	5	2	2	1	491
Prif Weithredwr	118	16	5	2	0	1	142
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus	22	2	1	0	0	4	29
Gwasanaeth Rhannu Adnoddau	186	16	1	0	1	0	204
Cyfanswm	1626	122	23	8	11	12	1802

Deall

	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwasanaethau Addysg	107	58	8	1	3	1	178
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	167	17	4	2	2	4	196
Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheoliadol	529	24	5	2	3	3	566
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai	461	16	4	1	5	1	488
Prif Weithredwr	108	22	6	2	2	1	141
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus	19	5	1	0	0	4	29
Gwasanaeth Rhannu Adnoddau	173	29	2	0	0	1	205
Cyfanswm	1564	171	30	8	15	15	1803

Mae'r tabl isod yn dangos y cyfanswm Gweithwyr sydd wedi nodi eu dewis iaith fel Cymraeg:

	Cymraeg	Saesneg	Cyfanswm	% Siaradwyr Cymraeg
Gwasanaethau Addysg	2	183	185	1.1
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	0	251	251	0.0
Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheoliadol	4	586	590	0.7
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai	1	511	512	0.2
Prif Weithredwr	0	149	191	0.5
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus	4	25	29	13.8
Gwasanaeth Rhannu Adnoddau	0	205	205	0.0
Cyfanswm	11	1910	1921	0.6

*noder bod y Gwasanaeth Iaith Gymraeg o fewn cyfarwyddiaeth yr UCGC.

Bwriad y data hwn yw hysbysu Rheolwyr a meysydd Gwasanaeth o ble mae sgiliau wedi eu lleoli a'r sawl sy'n hapus yn cynorthwyo'r cyngor wrth gyflawni gwasanaethau iaith Gymraeg.

8. Hyfforddiant iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn rhedeg nifer o Gyrsiau Hyfforddi iaith Gymraeg, oll yn cael eu hariannu'n ganolog. Yn ystod 2019/2020 mynychodd y nifer canlynol o weithwyr hyfforddiant iaith Gymraeg:

Cwrs 30 wythnos (2 awr yr wythnos)

Er mwyn cynorthwyo'r nifer sy'n mynychu dosbarthiadau iaith Gymraeg yn y gymuned, a sicrhau bod dosbarthiadau cymunedol yn cael eu cynnig a'u hyrwyddo yn y gymuned leol, mae staff y Cyngor yn cael eu hamog i fynychu hyfforddiant Cymraeg yn y Gwaith a ddarperir mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion yng Ngholeg Gwent.

Mynychodd 16 aelod staff gyrsiau hyfforddi Cymraeg yn y gwaith yn 2019/20 ar y lefelau sgiliau canlynol:

Lefel Sgiliau	Blwyddyn	Nifer yn mynychu
Mynediad 1	1	3
Mynediad 2	2	1
Sylfaen 1	3	1
Sylfaen 2	4	5
Canolradd 1	5	0
Canolradd 2	6	0
Uwch	7+	6
TYNNU'N ÔL		2
CYFANSWM		16

Cwrs Blasu 2 Ddiwrnod

Mae'r cwrs blasu Cymraeg 2 ddiwrnod wedi eu hanelu at rai sy'n dechrau o'r dechrau ac a gaiff eu trefnu mewn partneriaeth ag awdurdodau cyffiniol/partneriaid ac a gyflwynir gan Gyngor Dinas Caersdydd yn 2019/20.

Cyflwynir staff i ddysgu Cymraeg ac anelu i gyfarwyddo â chyfarchion sylfaenol, cyflwyniadau a rhoi cyfarwyddiadau ar ôl cwblhau'r cwrs.

Mynychodd 3 aelod o staff cwrs blasu'r Gymraeg yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf 2019.

Cwrs Blasu 10 awr Ar-lein

Cwblhaodd 8 aelod o staff y cwrs ar-lein a ddarparwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol gyda'r nod o gyflwyno cyfarchion ac ymadroddion bob dydd.

Gweithio Cwrs Preswyl Cymru

Yn ystod 2019/20, ymrwymodd 3 aelod o staff i wella eu Cymraeg trwy fynychu cwrs preswyl wythnos yn Nantgwrtheyrn, Gogledd Cymru.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Cyfunwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda gofynion safonau'r iaith Gymraeg a'i gyflwyno i holl swyddogion ym mhob maes gwasanaeth. Cyflwynwyd 1 sesiwn yn ystod 2019/20

Dan Safon 128, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os ydynt yn cael eu cynnig yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Trefniadau cwyno a disgyblu;
- Cyfnod sefydlu;
- Delio gyda'r cyhoedd, a
- Iechyd a diogelwch.

Darparwyd hyfforddiant mewn rhai o'r meysydd hyn yn ystod 2019/2020, cynigwyd, yn y gwahoddiad, ddewis iaith i'r rhai a fynychodd. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

9. Recriwtio

Yn ystod 2019/20, hysbysebwyd **648** o swyddi newydd neu wag gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Roedd nifer y swyddi yn y categori a oedd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg fel a ganlyn:

Roedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol	15
Roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg	0
Roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol	0
Nid oedd angen sgiliau iaith Gymraeg	633

Fel rhan o'r broses recriwtio, ac fel gofyniad dan Safon 136, rhaid asesu pob swydd o ran ei sgiliau iaith Gymraeg.